Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Cynllun Taliadau Gohiriedig

Taflen Wybodaeth

Ebrill
2024

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Y CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG - TAFLEN WYBODAETH

Cynorthwyo perchnogion cartrefi â chostau gofal preswyl nes iddynt werthu eu heiddo.

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

YN BERTHNASOL I (BOLISI)	Polisi Codi Tâl
RHIF CYFEIRNOD	LL04
ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
AWDUR	Sally Swarbrick
DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF	Ebrill 2024
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Ebrill 2025

Cynnwys

Y CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG 4

BETH YW'R CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG 4

AR GYFER PWY MAE'R CYNLLUN? 4

Sut ydw i'n cymhwyso ar gyfer y cynllun? 4

Oes modd i fy nghais am Gytundeb Taliadau Gohiriedig gael ei wrthod? 5

Amgylchiadau lle gall yr awdurdod lleol atal gohirio costau gofal. 5

SUT MAE'R CYNLLUN YN GWEITHIO? 5

Beth am y trigolion sy'n gwneud neu'n dymuno gwneud "taliadau ychwanegol?" 5

A FYDD UNRHYW GOST OS WYF YN PENDERFYNU YMUNO Â'R CYNLLUN? 6

TERFYNIAD Y CYTUNDEB TALIADAU GOHIRIEDIG 6

SUT YDW I'N GWNEUD CAIS I YMUNO Â'R CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG? 6

RHESTR FFIOEDD A FYDD YN DDYLEDUS, WEDI I CHI LUNIO CYTUNDEB TALIADAU GOHIRIEDIG 2024/25 7

RHAGOR O WYBODAETH 7

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL 8

CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU 9

Y CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG

BETH YW'R CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG

Mae'r cynllun taliadau gohiriedig ar gyfer unigolion sy'n dymuno gohirio talu rhan neu gyfanswm llawn eu costau gofal ar hyn o bryd ac yn hytrach eu talu'n nes ymlaen, fel nad ydynt yn gorfod gwerthu eu heiddo'n syth wedi iddynt symud i'r cartref gofal. Caiff y taliad hwn ei ohirio nid ei ddiddymu. Bydd rhaid i'r unigolyn sy'n symud i'r cartref gofal, neu drydydd parti ar ei ran, ad-dalu'r costau yn nes ymlaen.

AR GYFER PWY MAE'R CYNLLUN?

Mae ar gyfer perchnogion tai sy'n symud yn barhaol i gartref gofal preswyl a ariennir gan yr awdurdod lleol sydd naill ai:

- Ddim yn dymuno gwerthu eu cartref **neu**
- Sy'n methu â gwerthu eu cartref yn ddigon cyflym i dalu am eu gofal.

Sut ydw i'n cymhwyso ar gyfer y cynllun?

Mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i unigolion sy'n symud i gartrefi gofal preswyl ac yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae'r unigolyn wedi cael ei asesu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhywun sydd angen gofal preswyl neu ofal nyrsio
- Bod yr unigolyn yn gymwys i dderbyn arian gan yr awdurdod lleol
- Bod yr unigolyn â buddiant llesiannol yn yr eiddo
- Yn dilyn asesiad ariannol, nid yw incwm wythnosol yr unigolyn yn ddigon i gwrdd â chostau llawn ei ofal preswyl.
- Rydych yn cytuno â'r holl delerau ac amodau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb taliadau gohiriedig a gynigiwyd.
- Os oes unrhyw unigolyn arall a ystyriwyd gan yr awdurdod lleol fel unigolyn â chysylltiad yn yr eiddo a fyddai'n ei atal rhag cael ei werthu, mae'n rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth ganiatáu i ni gysylltu â'r unigolyn hwnnw.
- Caniatáu i'r awdurdod lleol osod pridiant ar yr eiddo y mae gan yr unigolyn gysylltiad ynddo a sicrhau bod hyn yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gysylltiad neu bridiant arall ar yr eiddo.
- Bod yr eiddo wedi'i yswirio yn erbyn yr holl beryglon cyffredinol ac wedi'i gynnal i safon resymol.
- Mae'n rhaid cofrestru'r eiddo gyda'r gofrestrfa tir.

Oes modd i fy nghais am Gytundeb Taliadau Gohiriedig gael ei wrthod?

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i unigolyn sy'n bodloni'r meini prawf a nodwyd uchod, ond bydd sefyllfaoedd pan fydd yr awdurdod lleol efallai'n gwrthod cais am gytundeb taliadau gohiriedig pan nad yw'r unigolyn yn bodloni'r meini prawf. Byddai hyn yn digwydd, er enghraifft:

- Os oes unigolyn arall â chysylltiad yn yr eiddo, sy'n anghytuno â'r eiddo'n cael ei ddefnyddio yn y modd hwn
- Os nad ydych yn cytuno â thelerau ac amodau'r cytundeb taliadau gohiriedig. Golyga hyn, er enghraifft, methu cwrdd â'r amod eich bod yn yswirio a chynnal a chadw'r eiddo.

Amgylchiadau lle gall yr awdurdod lleol atal gohirio costau gofal.

Mae amgylchiadau lle gall yr awdurdod lleol wrthod gohirio unrhyw gostau gofal pellach ar gyfer unigolyn sydd â chytundeb taliadau gohiriedig gweithredol eisoes wedi'i sefydlu.

Pan fo cost y gofal dros gyfnod o amser yn mynd yn fwy na 90% o werth yr eiddo.

SUT MAE'R CYNLLUN YN GWEITHIO?

Bydd gwerth eich tŷ yn cael ei ddiystyru am y deuddeg wythnos gyntaf.

Wedi i'r deuddeg wythnos ddod i ben, mae'n bosib y cewch ohirio'r gwahaniaeth rhwng costau'r cartref gofal ac eich cyfraniad wythnosol a aseswyd (byddwch wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig am hyn ymlaen llaw). Bydd hyn yn parhau, naill ai tan fydd eich eiddo wedi'i werthu neu fod y swm a ohiriwyd yn fwy na 90% o werth yr eiddo.

Beth am y trigolion sy'n gwneud neu'n dymuno gwneud "taliadau ychwanegol?"

Mae'n bosibl y byddwch yn dewis gwneud taliadau ychwanegol i fyw mewn llety sy'n fwy drud na'r hyn fyddai'r Cyngor yn arfer ei dalu. Gan hynny, efallai y bydd modd i breswylwyr sy'n dymuno peidio â gwerthu eu tai fanteisio ar Daliad Gohiriedig, a byddai'r Cyngor yn ystyried a ddylid gohirio taliadau ychwanegol (o incwm neu asedau eraill) er mwyn eich galluogi i fyw mewn tŷ drytach. Os bydd y swm ychwanegol yn ddrud iawn efallai na fydd yn bosibl gohirio'r taliadau hyn. Gellir gwneud unrhyw daliad ychwanegol sy'n ddyledus yn ystod y cyfnod diystyru eiddo o 12 wythnos ond dim ond o unrhyw incwm neu asedau cyfalaf, nid yr eiddo sy'n destun pridiant cyfreithiol.

A FYDD UNRHYW GOST OS WYF YN PENDERFYNU YMUNO Â'R CYNLLUN?

Bydd - Gall awdurdodau lleol adennill unrhyw gostau sydd ynghlwm â gohirio eich costau gofal a chostau sy'n ymwneud â'r risgiau ariannol ynghlwm â benthyca. Gallai'r rhain gynnwys:

- Codir llog o'r diwrnod cyntaf ar unrhyw swm a ohirir, a bydd yn cael ei adlogi yn ogystal â thâl ychwanegol o 0.15% uwchben yr 'ardreth berthnasol'.
- Unrhyw gost weinyddol ynghlwm â sefydlu a chynnal y cytundeb taliadau gohiriedig.
- Prisiadau ac ailbrisiadau o'r eiddo
- Cofrestru a chael gwared ar unrhyw bridiant cyfreithiol yn erbyn yr eiddo.

Gweler y Rhestr Ffioedd a fydd yn ddyledus, wedi i chi lunio Cytundeb Taliadau Gohiriedig, ar ddiwedd y ddogfen hon.

TERFYNIAD Y CYTUNDEB TALIADAU GOHIRIEDIG

Gellir terfynu cytundeb taliad gohiriedig mewn tair ffordd:

(1) Gall yr unigolyn ddod â'r cytundeb i ben unrhyw bryd wedi iddo dalu'r costau gofal sy'n ddyledus yn llawn, gan gynnwys llog a chostau gweinyddu sy'n ddyledus.
(2) Pan gaiff yr eiddo ei werthu a chaiff yr awdurdod ei ad-dalu, neu
(3) Pan fo'r unigolyn yn marw a chaiff y swm ei ad-dalu i'r awdurdod lleol o'i ystâd.

SUT YDW I'N GWNEUD CAIS I YMUNO Â'R CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG?

Os ydych yn bwriadu byw yn barhaol mewn cartref preswyl yn dilyn asesiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn ystyried cytundeb taliadau gohiriedig, fe allwch drafod y dewis hwn â Swyddog Asesiadau Ariannol neu Swyddog Budd-daliadau Lles drwy ffonio 01352 701318

Os ydych chi'n penderfynu parhau â hyn, cwblhewch y Ffurflen Gais Gohirio gyda'r holl wybodaeth berthnasol.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am ganlyniad eich cais.

RHESTR FFIOEDD A FYDD YN DDYLEDUS, WEDI I CHI LUNIO CYTUNDEB TALIADAU GOHIRIEDIG 2024/25

Costau	Swm £
Prisiadau	£85.00
Ffioedd cyfreithiol	£400.00
Ffi Sefydlu	£250.00
Ffi Weinyddu Flynyddol	£ 92.00
Taliadau Llog	Codir llog o'r diwrnod cyntaf ar unrhyw swm a ohirir, a bydd yn cael ei adlogi yn ogystal â thâl ychwanegol o 0.15% uwchben yr 'ardreth berthnasol'. Yr ardreth berthnasol yw Graddfa Marchnad Gilt a ddarperir ar benderfynyddion y bwrdd rhagolwg cyllidol a gellir cael mynediad ato o'r wefan ganlynol: http://budgetresponsibility.org.uk/

Sicrhewch eich bod wedi darllen y daflen 'Cytundeb Taliadau Gohiriedig' yn drylwyr ac wedi gwneud cais am gyngor cyfreithiol cyn cytuno i'r cynllun hwn.

RHAGOR O WYBODAETH

Cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol a Chodi Tâl i wneud cais am gopi o'r daflen talu am ofal preswyl sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y ffioedd, neu i drafod taliadau gohiriedig yn fwy manwl.

Y Tîm Asesiadau Ariannol a Chodi Tâl
Gwasanaethau Cymdeithasol
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug CH7 6NA
Rhif ffôn: 01352 701318

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint	
08444 772020	www.flintshirecab.org.uk
Gofal a Thrwsio Sir y Fflint Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed.	
01352 758700	www.flintshirecr.co.uk
Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru	
08450 549969	www.acnew.org.uk
Llinell Gymorth Mencap Cymru	
0808 808 1111	www.mencap.org.uk/wales
MIND	
01352 757637	www.flintshiremind.org.uk
Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS)	
01352 752525	www.carers.org/local/wales/flintshire
Gwasanaethau Cymdeithasol Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ	
03000 858 858	SSDUTY@flintshire.gov.uk www.flintshire.gov.uk/careinfo

CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion, ar adegau, rydyn ni'n gwybod y gallech chi fod angen gwneud cwyn. Gallwch wneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Neuadd y Sir, yr Wyddgrug
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint, CH7 6NN 01352 702623

Mae taflen "Eich hawl i ganmol a chwyno", sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin, ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein ar: www.flintshire.gov.uk/careinfo

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein ar: www.dewis.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for a version.

Mae'r daflen wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras trwy ffonio 03000 858 858.